FFURFLEN RHW12

# HYSBYSIAD O AMRYWIO'R RHENT

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 104(1) neu 123(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o rent newydd sydd i gael effaith ar ddyddiad a bennir.*

| **Rhan A: Y Math o Gontract Meddiannaeth**<br>*Ticiwch fel y bo'n gymwys.* | |
|---|---|
| Contract diogel | ☐ |
| Contract safonol cyfnodol | ☐ |

| **Rhan B: Landlord** |
|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: |

| **Rhan C: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|
| Enw(au): |

| **Rhan D: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan E: Hysbysiad o Amrywio'r Rhent** |
|---|
| Mae'r rhent sy'n daladwy o dan gontract meddiannaeth yr annedd uchod i'w amrywio.<br><br>Bydd y rhent sy'n daladwy o ……………………… yn ………………… yr/y ………………………<br>[*dyddiad*] [*swm*] [*e.e. wythnos/mis/blwyddyn*]<br><br>Mae hyn yn disodli'r rhent presennol o ………………… yr/y ………………………<br>[*swm*] [*e.e. wythnos/mis/blwyddyn*]<br><br>*Sylwer: Ni chaiff y dyddiad a bennir y mae'r rhent newydd yn daladwy ohono fod yn llai na dau fis o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn. Ni chaiff yr hysbysiad hwn bennu dyddiad y mae'r rhent newydd yn daladwy ohono sydd o fewn blwyddyn i'r dyddiad pan gafodd amrywiad rhent blaenorol effaith.* |

| **Rhan F: Llofnod** | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br><br>…………………………… | Dyddiad:<br><br>…………………………… |

**Canllawiau ar gyfer deiliaid contract**

Mae'r hysbysiad hwn yn eich hysbysu y bydd angen talu rhent newydd o'r dyddiad a restrir yn Rhan E. Os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn neu os ydych yn poeni na fydd modd i chi dalu eich rhent, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Dylech wneud trefniadau i dalu'r rhent newydd. Os ydych yn defnyddio archeb sefydlog i dalu drwy eich banc, dylech roi gwybod i'r banc fod y swm wedi newid. Dylech hefyd roi gwybod i'ch swyddfa Budd-dal

Tai yn eich awdurdod lleol os ydych yn hawlio budd-dal, neu’r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol.